Eitem 4 ar yr Agenda **26 Tachwedd 2010** **WNC 33.10**

Adroddiad Ariannol

Amcan

1. Hysbysu'r Pwyllgor Cenedlaethol am faterion ariannol cyfredol sy'n wynebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru.

Blwyddyn Ariannol 09/10

2. Rydym wedi ymateb yn ffurfiol i Lythyr Rheolaeth Swyddfa Archwilio Cymru ac mae'n dda gennyf gofnodi gostyngiad arwyddocaol mewn materion yn codi dros y blynyddoedd diwethaf. Cyflwynwyd y Llythyr Rheolaeth yn ffurfiol i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg ar 25 Tachwedd.

3. Roedd y trefniadau rheoli prosiect ffurfiol a sefydlwyd i yrru'r Flwyddyn Ariannol 09/10 yn llwyddiannus ac felly sefydlwyd strwythur prosiect tebyg ar gyfer y Flwyddyn Ariannol 11/12. Yn ogystal, mae prosiect ffurfiol ar waith yng nghyllid Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr (FC-GB) i fynd i'r afael â phrif faterion a nodwyd yn ein harchwiliad (a'r rhai hynny mewn gwledydd eraill) sy'n ymwneud â chyfrifyddu prydlesu cerbydau a phrydlesu cyllidol.

Cyllido Llywodraeth Cynulliad Cymru

4. **Cyllideb Ddrafft 2011/12 - 2013/14** - Ar 17 Tachwedd cyflwynodd Prif Weinidog Cymru gyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mae'r gyllideb ddrafft yn dangos toriad arfaethedig o 6.98% yn y gyllideb ar gyfer CC Cymru dros y cyfnod hwn. Mae hyn lawer gwell na'r gostyngiad o 13.6% yn y gyllideb a ddefnyddiwyd gennym yn ein rhagdybiaethau wrth gynllunio'n flaenorol.

5. Bydd hyn yn gostwng y pwysau ar ein busnes, ond mae'n parhau'n doriad yn y gyllideb ac yn cynrychioli gostyngiad o oddeutu 15% mewn termau real.

6. Bydd yr archwiliad a'r ddadl ynghylch cyllideb gyflawn LlCC yn parhau i'r Flwyddyn Newydd, ac mae'r amserlen yn awgrymu na fyddwn yn gwybod p'un ai yw'r ffigurau hyn yn destun newidiadau pellach hyd 8 Chwefror 2011.

	2010/11 £'000	2011/12 £'000	2012/13 £'000	2013/14 £'000	Gostyngiad cronnus £'000
Cyllido LlCC	22,033	21,395	20,995	20,495	1,538
Gostyngiad		638	400	500	1,538
% gostyngiad		2.90%	1.87%	2.38%	6.98%

7. **Cyllid Cyfalaf 2010/11** - gofynnodd LlCC i ni wneud cais am gyllid gyfalaf yn ystod y flwyddyn er mwyn defnyddio tanwariant mewn rhannau eraill yn eu cyllidebau Roedd ein cais am £0.5m yn llwyddiannus. O ganlyniad i hyn rydym wedi llwyddo i ddod â rhai o'r gwariant cyfalaf arwyddocaol ymlaen yn gynharach o Flwyddyn Ariannol 11/12, a hefyd prynu rhai cerbydau'n uniongyrchol lle byddai angen i ni eu prydlesu oni bai am hyn, ac felly arbedwyd y taliadau prydlesu blynyddol cyfredol.

Blwyddyn Ariannol 10/11

8. **Adroddiad Rheoli ar 30 Medi** – mae'r ffigurau yn y datganiad ariannol atodol yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Mis 6. Mae hyn yn dilyn y protocol sefydledig o adrodd ffigurau i'r Pwyllgor Cenedlaethol yn unig ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Rheoli. Mae amseriad y cyfarfodydd wedi rhwystro ffigurau mis Hydref rhag cael eu hadolygu gan y Bwrdd Rheoli hyd yn hyn.

9. **Diwygiadau i'r Datganiad Ariannol** – mewn ymateb i drafodaethau yn y Pwyllgor Cenedlaethol diwethaf rwyf wedi ailddrafftio'r datganiad ariannol atodol er mwyn gwahanu'r costau o ran Ymrwymiadau Ystâd Coetiroedd Eraill y Cynulliad, taliadau am wasanaethau a rennir i Gomisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, a'r costau gweinyddol (costau'r Swyddfa Genedlaethol). O ganlyniad i hyn tynnwyd allan oddeutu £10m o'r costau a ddangoswyd fel rhai ail daliadwy i Raglenni Corfforaethol mewn adroddiadau yn y gorffennol.

10. **Gwariant Rhaglenni Corfforaethol** – mae'r amrywiannau materol sy'n codi o'r adolygiad canol blwyddyn yn cael eu ffactoreiddio yn yr adroddiad ariannol atodol gyda'r rhai mwyaf arwyddocaol ers fy adroddiad diwethaf yn cael eu rhestru isod:

    - ***P ramorum*** – rhagwelwyd gorwariant o £0.4m i ariannu'r lefel o waith a ragwelwyd mewn ymateb i'r achos o *Phytopthera ramorum*.

    - **Grantiau** – cynyddwyd y gorwariant a ragwelwyd i oddeutu £1.0m yng ngoleuni ein bwriad i symud at agwedd "defnyddiwch neu collwch" sy'n rhagweld cynnydd mewn hawliadau yn y Flwyddyn Ariannol 10/11. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd effaith gwrthbwyso, gan y gall y blynyddoedd yn y dyfodol weld proffil taliad grant is.

11. **Incwm Rhaglen Gorfforaethol** - Er gwaethaf effaith incwm is oherwydd cynaeafu'r 45,000m^3 o bren heintiedig o ganlyniad i gychwyn yr haint Phytopthera, mae rhagolygon alldro cynaeafu'n rhagweld £0.5m derbyniol mewn termau cronedig sy'n rhoi rhagolygon ar lefel uchafswm o Gronfeydd Ariannu Hyblyg o £2.5m (sef 20% o £12.6m).

12. **Crynodeb** – Mae gan yr amrywiannau hyn, ynghyd ag amrywiannau llai a nodwyd, yr effaith gyffredinol o ddangos i ni ragolygon gorwariant o £0.371m y gellir ei reoli drwy Gronfeydd Ariannu Hyblyg. Fodd bynnag, mae rhai elfennau o ansicrwydd yn sail i hyn, a'r mwyaf arwyddocaol yw graddfa'r taliadau grant ychwanegol.

Materion Ariannol a Pherthnasol Eraill

13. **Cynllunio Busnes ar gyfer 2011/12 ymlaen** - Mae'r ymarfer Cynllun Busnes bellach ar waith a byddaf yn hysbysu'r Pwyllgor am ei gynnydd. Y cynlluniau cyfredol yw i'r Cynllun Busnes gael ei gymeradwy gan y Bwrdd Rheoli ym mis Ionawr 2011 a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Cenedlaethol yn Chwefror 2011.

14. Yn ogystal â rhewi cyflogau am y tro a'r cyfyngiadau ar recriwtio a sefydlwyd ar lefel Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr, rydym yn ceisio arbedion effeithlonrwydd gan ein darparwyr gwasanaethau a rennir. O fewn Comisiwn Coedwigaeth Cymru byddwn yn chwilio am effeithlonrwydd gan y Cynllun Cyflwyno Caffaeliad (a gynhyrchodd arbedion gwerth £1m yn y Flwyddyn Ariannol 09/10 i'w ryddhau dros einioes y cytundebau), o agwedd fwy masnachol at ddefnyddio Ystâd Coetir y Cynulliad, ac o newidiadau i'r cynlluniau talu grantiau (cau Coetiroedd Gwell i Gymru a'r grant creu coetir newydd yng nghynllun Glastir LlCC).

15. **Cynllun Cyflwyno Caffaeliad** – Mae gweithio ar y cyd ag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (EAW) a Chyngor Cefn Gwlad Cymru (CCW) yn mynd yn ei flaen yn dda ac ym mis Tachwedd bydd Comisiwn Coedwigaeth Cymru'n arwain ar hysbysebu yng nghyfnodolyn yr Undeb Ewropeaidd gytundeb fframwaith cyntaf gwerth £0.760m o ran gwasanaethau gwaith coed sy'n cynnwys y tri sefydliad. Mae gwaith arall ar y cyd, sydd eisoes yn yr arfaeth yn cynnwys fframwaith ffyrdd newydd a monitro cyfryngau.

Dadansoddi Risg

16. **Blwyddyn Ariannol 10/11** - Aseswyd y risg o fynd dros y gyllideb neu dros ein hariannu hyblyg fel **Isel** (Effaith 4, Tebygolrwydd 1).

17. **Blwyddyn Ariannol 11/12 a thu hwnt** - Mae'r risg o ostyngiadau sylweddol yn yr ariannu gan LlCC ar gyfer Blwyddyn Ariannol 11/12 a thu hwnt yn **Gymedrol** (Effaith 4, Tebygolrwydd 3).

Goblygiadau i Adnoddau

18. Fel rheol nid yw'r papur yn codi materion ynghylch goblygiadau i adnoddau. Mae'n gwasanaethu fel canllaw ynglŷn â sut mae'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli'n cael eu rheoli.

Cyfathrebu

19. Mae sefyllfa ariannol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei chyfleu drwy gyhoeddi'r papur hwn, a olygwyd o ran unrhyw gynnwys sensitif masnachol ar y Fewnrwyd. Yn y cyfamser, mae'n cael ei chyfleu i Reolwyr Unedau drwy gyfarfodydd Fforwm Rheoli, cyfarfodydd Grŵp Rheoli Ystâd, a thrwy drafodaethau rheolaidd rhwng staff Cyllid a Rheolwyr Uned Comisiwn Coedwigaeth Cymru. Yn ogystal, mae Adroddiadau Ariannol gan y Bwrdd Rheoli a'r Pwyllgor Cenedlaethol yn cael eu copïo at uned fusnes Adran Materion Gwledig Llywodraeth Cynulliad Cymru ac at Gyfarwyddwr Cyllid Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr.

Argymhellion

20. Gofynnir i'r Pwyllgor Cenedlaethol nodi'r sefyllfa gyfredol.

Martin Veale
Pennaeth Cyllid
19 Tachwedd 2010